

Y Casglwr

Rhif 78

Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn

Haf 2003

T. Llew Jones yn cofio DEWI EMRYS

'Digwyddodd, darfu megis seren wib'

Felly'n union y bu hi yn hanes Dewi Emrys. Fe fu yna gyfnod pan oedd Dewi'n eilun ac yn arwr gan filoedd lawer o'i gyd-Gymry.

Rwy'n cofio fel tae ddoe y tro cyntaf i mi weld Dewi Emrys yn y cnawd. Hogyn 15–16 oed oeddwn i a'r flwyddyn oedd 1930–31. Rown i wedi mynd i mewn i fws oedd yn aros ar groesffordd Saron, Llangeler ac wedi sylwi fod y bobl oedd yn y bws yn barod (pobl rown i'n eu nabod yn dda) yn fwy tawedog o lawer nag arfer. Cymerais sedd ym mhen blaen y bws yn ymyl hen gyfailli i mi. Oherwydd y dieithrwrch a'r distawrwydd anarferol fe holais fy nghyfailli, mewn llais isel, beth oedd yn bod. Sibryddodd yn fy nghlust fod y Prifardd Dewi Emrys yn eistedd ym mhen ôl y bws!

Ymhen tipyn, mentrais daflu trem dros fy ysgwydd i gael cip ar y dyn mawr. Eisteddai bron yng nghefn y bws – dyn llwyd ei wedd a'i lygaid yngháu, gallwn feddwl. Wynneb cryraidd, golygus o dan het trlby urddasol â'r gwallt brithlwyd, cryf, yn hongian yn gudynnau o dan ei hymylon. Teimlais fod ei 'bresenoldeb' yn llond y bws! Ac fe allwn synhwyro fod yr un teimlad wedi gafael yn y teithwyr mewn oed yn y bws hefyd. Mae llawer un wedi tynnu sylw at y 'peth' hwn a oedd yn perthyn i Dewi – sef y 'presenoldeb' neu'r 'bersonoliaeth' gref, liwgar yma a oedd fel rhyw fath o drydan o gwmpas y dyn. Dywedodd y bardd Amanwy amdano fel hyn, 'Yr oedd o ran ei osgo a'i bersonoliaeth yn debycach i fardd na neb arall yng Nghymru.' Soniodd T. E. Nicholas hefyd am ei 'ymddangosiad urddasol'. Meddai rhywun arall amdano 'Ni allai fod yn unman a bod yn gudd.'

Un felly oedd e.

Un o sêr y pulpud

Rhaid cofio, wrth gwrs, fod seren Dewi Emrys wedi cyrraedd ei huchafbwynt llachar cyn i mi ei weld y tro cyntaf ar groesffordd Saron. Yr oedd wedi bod yn un o sêr y pulpud gydag enwad yr Annibynwyr; yn bregethwr cyrddau mawr gyda'r mwyaf poblogaidd; yr oedd wedi ennill y Goron Genedlaethol yn Eisteddfod Abertawe 1926 ac wedi cipio dwy Gadair Genedlaethol yn Lerpwl a

Llanelli, ddwy flynedd yn olynol, yn 1929 a 1930. Ond yr oedd hefyd wedi 'madael â'i wraig a'i blant, wedi gadael ei eglwys yn Finsbury Park, Llundain, wedi cael ei ddiarddel gan ei enwad ac wedi bod yn byw fel trempyn digartref ac yn bodoli ar gardod yn aml. Hefyd, yn ôl ei dystiolaeth ef ei hunan, roedd e wedi cael y profiad o gysgu gyda threueiniaid eraill, ar yr 'Embankment' ar lannau Afon Tafwys.

Dewi yn canu y tu allan i gapel King's Cross

Cofiai fy niweddar wraig, a oedd yn ferch ifanc ac yn gweithio yn Llundain yn y cyfnod yma, am Dewi yn canu y tu allan i gapel King's Cross ar brynhawn Sul, â'i het ar y pafin yn disgwyl cardod gan y gynulleidfa oedd yn dod allan o'r capel ar ddiwedd y gwasanaeth. Mae'n werth cofio mai Elfed oedd gweinidog King's Cross ar y pryd ac fod Dewi ac yntau, rai blynyddoedd ynghynt, wedi bod yn pregethu mewn cyrddau mawr gyda'i gilydd.

Mae'n anodd esbonio'r newid mawr a ddigwyddodd yn hanes Dewi yn y cyfnod yma. 'Pa fodd y cwmpodd y cedyrn?' Mae ef ei hun wedi ceisio egluro'r peth mewn papur Saesneg (*Tit-Bits*) a oedd yn boblogaidd ar y pryd. 'I sort of gave up the ghost and refused to fight, allowing myself to drift... with the current. A sort of sweet, selfish indolence... possessed me...'

Mae'r geiriau yna, rwy'n meddwl yn dweud llawer wrthon ni am gymeriad Dewi ac yn gymorth, efallai, i egluro'r hyn ddigwyddodd yn ei hanes.

Ond ar waetha popeth, roedd e'n dal i sgrifennu yn Saesneg ac yn Gymraeg. Daeth dwy Gadair Genedlaethol arall i'w ran – yn gwneud pedair i gyd.

Pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd roedd Dewi'n byw yn Llundain ond pan ddaeth y 'blitz' ar y ddinas bu rhaid iddo ffoi i'r wlad a dod i fyw i'r Bwthyn, Talgarreg, Ceredigion. A dyna pryd y deuthum i i'w nabod yn iawn.

Beirniadu yr englyn yn Eisteddfod Llanybydder

Roedd yr hen rebel yn drigain oed erbyn hynny, a'r blynyddoedd a throeon yr yrfa wedi ei ddofi i raddau helaeth, mae'n siŵr gen i. Ond roedd yr hen gymeriad lliwgar yn aros. Cofiaf amdano'n beirniadu cystadleuaeth

(Parhad ar dudalen ôl)



Dewi Emrys.